Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

21 Chwefror 2019

Annwyl Gyfaill

Ein hymgynghoriad, 'Budd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well'

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynnal ymchwiliad i fudd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well.

Cylch gorchwyl

Dyma gylch gorchwyl y Pwyllgor ar gyfer ei ymchwiliad:

- y dadleuon o blaid ac yn erbyn datganoli budd-daliadau lles;
- y gwersi a ddysgwyd o ddatganoli rhai pwerau nawdd cymdeithasol i'r Alban;
- opsiynau ar gyfer gwahanol fathau o ddatganoli (h.y. hyblygrwydd credyd cyffredinol, datganoli budd-daliadau penodol, y gallu i greu budd-daliadau newydd ac ati);
- ystyriaethau ymarferol datganoli (e.e. y goblygiadau ariannol, integreiddio systemau datganoledig a systemau nad ydynt wedi'u datganoli, seilwaith cyflenwi ac ati); ac
- yr egwyddorion a allai fod yn sail i ddarparu budd-daliadau yng Nghymru.

Gwahoddiad i gyfrannu i'r ymchwiliad

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'w gynorthwyo yn ei waith o ystyried yr ymchwiliad. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddefnyddio'r cylch gorchwyl uchod i lunio eich ymateb.

Dylai sylwadau gyrraedd erbyn **11 Ebrill 2019 fan bellaf.**

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i: SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

Tudalen Dialogue

Fel arall, os byddai'n well gennych ymateb drwy ein tudalen Dialogue, sy'n rhoi cyfle i gyflwyno sylwadau llai ffurfiol, defnyddiwch y linc isod. Mae hefyd yn caniatáu ichi wneud sylwadau ar yr hyn y mae pobl eraill wedi'i gyfrannu:

https://senedd.dialogue-app.com/benefits-in-wales-options-for-better-delivery-budd-daliadau-yng-nghymru-opsiynau-i2019w-cyflawni2019n-well

Canllawiau

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Gweler y canllawiau i dystion sy'n cyflwyno tystiolaeth i bwyllgorau.

Polisi dwyieithrwydd

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn y naill neu'r llall o'n hieithoedd swyddogol, Cymraeg a Saesneg, neu'r ddwy. Os na chyflwynir gwybodaeth yn ddwyieithog, ni fydd yn cael ei chyfieithu, a chaiff ei chyhoeddi yn yr iaith y cafodd ei chyflwyno ynddi yn unig. Disgwyliwn i sefydliadau weithredu eu safonau a'u cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

Datgelu gwybodaeth

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn www.cynulliadcymru.org/cy/help/privacy/help-inquiry-privacy.htm. Dylech sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Manylion cyswllt

Os hoffech siarad â rhywun am yr ymgynghoriad hwn, defnyddiwch y manylion cyswllt a ganlyn:

Clerc y Pwyllgor

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, CF99 1NA

E-bost: SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

Rhif ffôn: 0300 200 6565

Yn gywir,



John Griffiths AC

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau